Canllaw i ddiogelu gwirfoddolwyr ifanc sydd yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol

Pam bod hyn yn bwysig?

Mae **diogelu** yn golygu amddiffyn pawb rhag niwed, camdriniaeth neu esgeulustod, ac mae pobl ifanc yn un o'r grwpiau mwyaf agored i niwed yn nhermau diogelu. Dylid gwneud darpariaethau ychwanegol pan fydd sefydliad yn dod i gysylltiad â phobl ifanc yn rheolaidd.

Y **cyfryngau cymdeithasol** yw un o ddyfeisiadau mwyaf poblogaidd y chwyldro ar-lein. Yn ogystal â chyflwyno llawer o fanteision, gall y cyfryngau cymdeithasol beri risgiau newydd i bobl ifanc. O ganlyniad, dylai sefydliadau baratoi ac addasu canllawiau a pholisïau penodol os ydynt yn rhyngweithio â phobl ifanc trwy gyfrwng gyfryngau cymdeithasol, i amddiffyn gwirfoddolwyr, buddiolwyr a nhw eu hunain.

Risgiau a heriau'r cyfryngau cymdeithasol

Oedran / Aeddfedrwydd gwirfoddolwyr ifanc. Mae gan lwyfannau cyfryngau cymdeithasol gyfyngiadau oedran. Felly, efallai nad ydy gwirfoddolwyr ifanc wedi cael cymaint o amlygiad i lwyfannau cyfryngau cymdeithasol ag y credwch chi, ac efallai na fyddant yn gwybod beth sy'n dderbyniol ac yn annerbyniol o safbwynt ymddygiad, yn enwedig wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol at ddibenion proffesiynol.

Ymddygiad proffesiynol. Fel sefydliad, mae disgwyl i chi ymddwyn yr un fath ar-lein ag yr ydych mewn person. Mae'n gallu bod yn demtasiwn ymddwyn mewn ffordd fwy hamddenol ar-lein. Mae'r un peth yn wir am eich gwirfoddolwyr ifanc.

Camddefnyddio damweiniol. Er enghraifft, pobl yn 'hoffi' neges amhriodol trwy ddawmain, neu yn agor dolen i feddalwedd maleisus. Gall sefydliadau gael eu tagio neu eu crybwyll mewn cynnwys amhriodol heb iddynt wybod hefyd, os nad oes gosodiadau diogelwch perthnasol yn eu lle.

Drwy **bostio gwybodaeth bersonol,** gellir adnabod a lleoli unigolyn ifanc pan nad ydynt ar-lein. Mae rhai gwasanaethau ar-lein yn gallu cynnwys yr union leoliad ble cafodd y neges ei llwytho i fyny, neu lle cafodd llun ei dynnu. I bobl ifanc, gall hyn gyflwyno materion yn ymwneud â diogeledd a diogelwch.

Amlygiad i gynnwys amhriodol neu baratoi i bwrpas rhyw, denu, ecsbloetio a cham-drin.

Negeseuon personol. Efallai y bydd pobl ifanc eisiau cysylltu â'r sefydliad trwy wasanaethau negeseuon preifat, sydd heb unrhyw ganllawiau arferion gorau.

Astudiaeth achos

Roedd sefydliad sy'n codi ymwybyddiaeth am newid yn yr hinsawdd eisiau **cynyddu cyrhaeddiad ei negeseuon** cyfryngau cymdeithasol. O ganlyniad, penderfynont **benodi gwirfoddolwr** i redeg cyfrifon cyfryngau cymdeithasol y sefydliad. Rhoddodd y sefydliad gyflwyniad i'r gwirfoddolwr i'w bolisi cyfryngau cymdeithasol, **canllawiau ar sut i gydymffurfio â strategaeth y sefydliad**, a phenododd **oruchwyliwr** a fyddai'n cynnig cymorth ac yn goruchwylio'r cynnwys a gyhoeddwyd.

Mae'r gwirfoddolwr wedi postio **negeseuon rheolaidd** ar gynnwys amrywiol, wedi rhyngweithio â phroffiliau cyfryngau cymdeithasol **sefydliadau eraill**, ac wedi **creu canllawiau ar holl lwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol** i wirfoddolwyr y dyfodol. Trwy benodi gwirfoddolwr ifanc, cynyddodd **ymglymiad cyfryngau cymdeithasol** y sefydliad 60%.

Awgrymiadau ymarferol

Gwiriwch y gosodiadau preifatrwydd ar holl lwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol, a dewiswch opsiynau sy'n diogelu preifatrwydd y sefydliad a'r gwirfoddolwyr. **Sut i osod eich gosodiadau preifatrwydd.**

Gwiriwch oedran gwirfoddolwyr ifanc: peidiwch â chaniatáu mynediad i gyfrifon cyfyngiadau cymdeithasol y cwmni i blant sydd o dan y cyfyngiad oedran perthnasol ar gyfer y llwyfan penodol (e.e. mae gan Facebook, Snapchat, Instagram gyfyngiad oedran o 13) , neu i gysylltu gyda phobl ar lwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol sydd o dan y cyfyngiadau oedran hyn.

Peidiwch â chymryd rhan mewn cyfrifon cyfryngau cymdeithasol personol gwirfoddolwyr drwy ddod yn ffrindiau ar Facebook, neu drwy hoffi neu rannu negeseuon.

Rhowch hyfforddiant ar y cyfryngau cymdeithasol i bob gwirfoddolwr ifanc a fydd yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol fel rhan o'u rôl yn y sefydliad. Ceisiwch gyfyngu mynediad i gyfrifon cyfryngau cymdeithasol i unigolion sydd wedi cael yr hyfforddiant hwn.

Gwnewch yn siŵr fod gwirfoddolwyr yn gwybod sut i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, yn unol â'ch polisïau, safonau a thelerau'r cytundeb. Peidiwch â thagio neb dan 18 oed mewn negeseuon ar lwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol.

Trafodwch syniadau gyda gwirfoddolwyr am y mathau o gynnwys y dylent eu rhannu, a dim eu rhannu, ar eich cyfrifon cyfryngau cymdeithasol.

Gwnewch yn siŵr fod y canllawiau ynghylch adrodd mater yn glir a bod yr holl wirfoddolwyr yn eu deall cyn iddynt ddefnyddio'ch llwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

Peidiwch â dileu unrhyw negeseuon preifat, fel y gellir eu monitro os oes angen. Peidiwch â defnyddio gwasanaethau negeseuo sy'n gofyn i chi rannu data personol, neu sydd ddim yn caniatáu i chi gadw tystiolaeth o'ch negeseuon (ee Snapchat).

Cadwch lygad ar y cynnwys sy'n cael ei gyhoeddi gan wirfoddolwyr, fel y gallwch chi olygu neu ddileu unrhyw gynnwys amhriodol, ac egluro'r newidiadau rydych chi wedi eu gwneud i wirfoddolwyr, fel y gallant ddysgu ac addasu.

Gwnewch yn siŵr bod gwirfoddolwyr yn gwybod am eich polisi diogelu a pha fesurau fydd yn cael eu cymryd rhag ofn y bydd y polisi'n cael ei dorri. Er enghraifft, efallai y gofynnir i wirfoddolwr gael gwared ar neges amhriodol ar Facebook, neu newid eu gosodiadau preifatrwydd.

Cynnwys awgrymedig ar gyfer canllawiau cyfryngau cymdeithasol

Pam bod eich sefydliad yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol?
Er enghraifft, i hyrwyddo neu rannu'r hyn sy'n digwydd yn eich sefydliad, i chwilio am bartneriaethau gyda sefydliadau eraill, neu i ysbrydoli'ch cynulleidfa.

Beth ydy prif themâu'r cynnwys a gyhoeddir?
Er enghraifft, mae negeseuon cyfryngau cymdeithasol sefydliad materion rhyngwladol yn canolbwyntio'n bennaf ar faterion y byd, datblygu rhyngwladol, dinasyddiaeth fyd-eang, cynaliadwyedd, trin unigolion yn deg, hawliau dynol, newid yn yr hinsawdd a gwirfoddoli.

Pa fath o gynnwys?
Er enghraifft - digwyddiadau sydd i ddod, newyddion gan eich sefydliad, ffilmiau byr, arolygon, erthyglau yn ymwneud â materion cyfoes ond hefyd, cyfres o negeseuon cyfryngau cymdeithasol tebyg (ee dyfyniad y dydd, 'ar y diwrnod hwn mewn hanes'), a fydd yn sicrhau dilyniant

Ym mha ffordd y dylid cyflwyno'r cynnwys?
Sut y dylid cyflwyno'r cynnwys - yn optimistaidd ac yn bositif , neu yn ddadleuol ac yn ysgogi'r meddwl? A ddylai'r negeseuon swnio'n swyddogol (llais goddefol, 'ein cefnogwyr') neu'n bersonol (ni, chi ac ati).

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Tŷ Baltic, Sgwâr Mount Stuart Caerdydd, CF10 5FH. Rhif elusen gofrestredig 218093. Cwmni cyfyngedig drwy warant 425299. Mawrth 2018.

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**